**Cyngor Sir – Dydd Mercher 9fed Hydref 2013**

**Eitem Rhif 5 – “Rhybudd Gynnig a Gyflwynwyd gan y Cynghorydd P. Hughes Griffiths**

*“Bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn gresynu at benderfyniadau diweddar gan Weinidog Iechyd Llywodraeth Lafur Cymru Mr Mark Drakeford i is-raddio’r gwasanaeth Damweiniau ac Argyfwng yn Ysbyty’r Tywysog Phillip yn Llanelli a fydd yn cael ei arwain gan nyrsis a doctoriaid lleol, ynghyd a chefnogaeth gyhoeddus Mr Keith Davies, Aelod Cynulliad Llaneilli i hynny.*

*Gan fod yr Adrannau Damweiniau ac Argyfwng yn y dair Ysbyty Gyffredinol arall yn ardal iechyd Hywel Dda yn cael eu cadw, mae’r penderfyniad brawychus a ni ellir ei amgyffred hwn yn dangos yn glir safonau dwbl Llywodraeth Lafur Cymru ac sydd yn anfanteisiol iawn i bobl ardal Llanelli.*

*Mae’r Cyngor Sir yn datgan diffyg hyder yn Mr Mark Drakeford, a wrthododd ein cais fel Cyngor i gyfarfod a dirprwyaeth traws-bleidiol, ac felly, galwn ar Lywodraeth Llafur Cymru i ddileu’r penderfyniad anghyfiawn, bywyd-bygythiol a di-amddiffyn hwn gan sefydlu Adran Ddamweiniau ac Argyfwng yn Ysbyty’r Tywysgol Philip, Llanelli a fydd o’r un safon ac ansawdd ac Ysbytai Glangwili, Llwynhelyg a Bronglais.”*